

# Dysgu sy'n canolbwyntio ar y Plentyn

Mae dysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn ymwneud ag **addasu'r** sesiynau i **ddiwallu** anghenion, galluoedd a diddordebau **pob plentyn**.

Gall hynny fod yn dasg eithaf arswydus os oes nifer fawr o blant yn eich sesiwn.

Yr **allwedd** i ddysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn yw **cynnwys** y plant yn eu **dysgu eu hunain**. Mae angen help ar bob plentyn i ddeall **beth y mae'n gallu ei wneud, beth y mae'n hoffi ei wneud, beth y mae'n dymuno ei wneud a sut, a beth y mae'n dymuno ei wella**, ac yna mae angen cynllunio gweithgareddau gyda nhw i'w helpu i **wella**.

I ddechrau efallai y bydd angen i chi gyflwyno gweithgaredd sy'n **canfod** beth yn union y mae'r plentyn yn **medru** neu'n **methu ei wneud**. Gallech chi ddefnyddio Cerdyn Sgiliau Technegol neu Gerdyn Gweithgareddau i wneud hynny. Yn rhan o **Sgwrs Hyfforddi**, gofynnwch i'r plentyn fyfyrion ynghylch lefel gyfredol ei sgiliau. Arsylwch y plentyn pan fydd yn gwneud gweithgaredd er mwyn asesu pa mor gywir yw ei farn.



Mae **Hyfforddi drwy Sgwrsio** yn ddull cyflwyno sy'n golygu gweithio gyda'r plant yn hytrach na dweud wrthynt beth i'w wneud neu roi cyfarwyddiadau iddynt. Mae hyfforddi drwy sgwrsio yn cynnwys trafod, awgrymu, gofyn cwestiynau, modelu, herio'r plant i feddwl drostynt eu hunain, gwneud penderfyniadau, myfyrio'n gywir ac ati. Mae'r Cardiau Gweithgareddau yn cynnwys **cwestiynau** y gallwch eu defnyddio i **hybu hyfforddi drwy sgwrsio** a **gwella** eich sgiliau **gofyn cwestiynau**.

Os byddwch yn **cytuno** â'r plentyn, gallech gynnal **sgwrs hyfforddi** arall er mwyn helpu'r plentyn i benderfynu **beth y gallai weithio arno nesaf**, fel bod gan y plentyn **berchnogaeth** ar ei ddysgu ei hun a'i fod yn cymryd **cyfrifoldeb** am ei **welliant** ei hun. Os byddwch yn anghytuno â'r plentyn, bydd angen o hyd i chi gynnal sgwrs hyfforddi, ond diben y sgwrs yn awr fydd ceisio **egluro** beth y mae'r plentyn yn gallu ei wneud, gan ddibynnu ar dystiolaeth i ddod i benderfyniad a rhoi cynnig ar bethau **gyda'ch gilydd**. Pan fyddwch wedi dod i gytundeb, dylech fynd yn ôl at y sgwrs hyfforddi **'beth nesaf'**.

Mae plant yn **mwynhau** gwneud penderfyniadau ynghylch **'beth'** y byddant yn ei wneud a **'sut'**, ac ynghylch gyda **'phwy'** y byddant yn gweithio. Mae cyfle i weithio mewn grwpiau gyda **ffrindiau** yn bwysig iawn i blant ac yn effeithio ar eu **cyfranogiad** hirdymor. Rhaid rhoi pwys dyledus ar **agweddau**

**personol a chymdeithasol** sesiynau, oherwydd bydd plant yn aml yn gwerthfawrogi'r rhain yn fwy na'r cyfleoedd 'corfforol'. Gweler y Daflen Ffeithiau **'Datblygu'r Plentyn Cyfan'** i gael rhagor o wybodaeth.

I'ch cynorthwyo i sicrhau dysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ceir **continwmm** o Sgiliau a Gweithgareddau. Mae'r continwmm yn y **Cardiau Sgiliau Technegol** yn amrywio o **'wrth iddynt ddatblygu'** i **'wrth iddynt ddefnyddio eu sgiliau'**. Os bydd plentyn yn cael trafferth gyda sgil penodol ceir **pwytiau addysgu, ymarferion Goleuadau Traffig a chlipiau fideo** ar gyfer pob sgil technegol. Bydd hynny'n eich helpu i **weithio gyda'r plentyn i adnabod** ffyrdd o wneud y sgil yn **haws** neu'n **anos** a dewis sgiliau **cynharach** a allai gyfrannu at berfformio sgil **anos**.

Mae **Cardiau Gweithgareddau Aml Sgiliau'r Ddraig** yn adeiladu ar Gardiau Gweithgareddau **'Chwarae i Ddysgu'**. Os yw gweithgaredd Aml Sgiliau yn rhy anodd i blentyn neu grŵp o blant, gallwch ddewis gweithgareddau o'r adnoddau **'Chwarae i Ddysgu'**. Mae gan lawer o'r gweithgareddau yr un enw, ond maent yn fersiynau **symlach**. Mae'r gyfres o gardiau gweithgareddau (**Chwarae i Ddysgu** ac **Aml Sgiliau a Champau'r Ddraig**) yn cyflwyno continwmm dysgu cyfan y gallwch ei ddefnyddio i **gynllunio** eich sesiynau.



# Dysgu sy'n canolbwyntio ar y Plentyn

Yr adnodd mwyaf a all eich helpu i sicrhau bod y dysgu'n canolbwyntio ar y plentyn yw eich **dychymyg**. Dylech gynnal **sgwrs hyfforddi** â'r plant er mwyn **creu** ffyrdd **amgen** o **addasu gweithgareddau** drwy newid y **lle**, y **dasg**, yr **offer** neu'r **bobl**, a fydd yn gwneud y gweithgaredd yn **fwy priodol**.



newidiwch y  
**lle**



newidiwch y  
**dasg**



newidiwch yr  
**offer**



newidiwch y  
**bobl**

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd gennych **bâr** neu **grŵp bach** o blant a fydd am wneud yr un peth, yn hytrach nag unigolyn, ond bydd modd i chi **herio unigolion** penodol os byddwch yn dymuno. Bydd angen i chi ystyried y modd y caiff y plant eu **grwpio** yn eich sesiwn er mwyn sicrhau bod **cymaint o ddysgu ag sy'n bosibl yn digwydd**. Gallai grwpio plant yn ôl **grwpiau o ffrindiau** a **grwpiau cyferbyniol** fod yn briodol i sicrhau canlyniadau personol a chymdeithasol, gallai grwpio plant yn ôl **gallu** fod yn fuddiol i ddatblygu sgiliau, a gallai grwpiau **gallu cymysg** fod yn fuddiol i sicrhau cystadleuaeth deg. Gallai grwpiau fod yn gweithio ar yr un canlyniad ond gan ddefnyddio gwahanol sgiliau/gweithgareddau, gallent fod yn gweithio

ar wahanol ganlyniadau gan ddefnyddio'r un sgîl/gweithgaredd, neu gallent fod yn gweithio ar wahanol ganlyniadau a gwahanol sgiliau/gweithgareddau.

Mae **cyflymder** yn bwysig i ddysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Bydd rhai plant yn awyddus neu'n **barod** i **symud ymlaen** cyn plant eraill. Felly, bydd cyflymder y dysgu'n destun sgwrs hyfforddi arall er mwyn sicrhau bod **amseru** unrhyw **gamau i symud ymlaen** yn briodol.

Eich rôl chi yw dechrau **hyfforddi drwy sgwrsio** gyda'r plant er mwyn eu **cynorthwyo** a sicrhau eu **diogelwch** wrth iddynt gymryd **cyfrifoldeb cynyddol** am eu dysgu eu hunain, gan eu helpu i **ddysgu sut i ddysgu**. Bydd o gymorth cael ystod o **adnoddau** y gallwch eu defnyddio i hybu'r dysgu annibynnol hwn, sy'n cynnwys **offer**, **cardiau adnoddau**, **offer TGCh gan gynnwys camerâu digidol** ac **arweinwyr ifanc**. Po fwyaf yw'r cymorth a geir, gorau'n y byd fydd y **gymhareb plant/arweinwyr**, a fydd yn golygu bod modd i'r plant gael **mw y gymorth** gan unigolyn pwysig arall os ydynt yn dymuno. Bydd hynny'n helpu i sicrhau dull gweithredu mwy personol am fod gan plant rywrai y gallant droi atynt i gael cymorth. Mae ymchwil wedi dangos bod **cydberthnasau** yn bwysig i blant, eu bod yn hoffi rhyngweithio â phobl bwysig eraill a'u bod yn meithrin **perthynas**

ac **ymddiriedaeth** gyda'r unigolion hynny. Mae Arweinwyr Ifanc yn **fodelau rôl** da i blant.

Mae'n bwysig trafod **cynnydd** pob plentyn â'r plentyn ei hun a'i **rieni/gofalwyr/eiriolwyr**. Mae dull Aml Sgiliau'r Ddraig o weithredu yn annog plant i **drosglwyddo** eu dysgu o'r naill sefyllfa i'r llall. Gallai un enghraifft o hynny olygu bod plentyn yn cymryd rhan mewn sesiwn Aml Sgiliau ar ôl yr ysgol ac yn cymryd rhan hefyd mewn rhaglen bêl-rwyd yn y gymuned. Er mwyn i'r plentyn wneud cynnydd yn y ddwy sefyllfa, mae angen i'r ddwy set o ddarparwyr gael **gwybodaeth gyson** am y cynnydd y mae'r plentyn wedi'i wneud yn y sesiynau eraill. Mae angen i ddarparwyr gael gafael ar ffyrdd creadigol o **drosglwyddo gwybodaeth** a manteisio arnynt er mwyn i bob darparwr allu parhau i adeiladu ar anghenion, galluoedd a diddordebau cyfredol pob plentyn. Mae gan y plant eu hunain rôl i'w chwarae yn hynny o beth drwy fod â'r gallu i adnabod yn gywir yr hyn y maent yn medru ac yn methu ei wneud.

Dim ond drwy **weithio gyda** phlant, ymwneud â **hyfforddi drwy sgwrsio** a datblygu **dealltwriaeth gyffredin** o anghenion, galluoedd a diddordebau y bydd darparwyr yn gallu sicrhau **dysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn**.

## Nodyn i athrawon

Mae Hyfforddi drwy Sgwrsio yn gyson â '**meddwl cynaledig cyffredin**' ('shared sustained thinking') yn y Cyfnod Sylfaen ac **addysgu ymddiddanol**.